

Gwasanaeth a manylion cyswllt	
Gwasanaeth:	Y Gyfraith a Rheoleiddio
Manylion cyswllt:	Contact.tracing@newport.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	COVID 19 – Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau

Ffynhonnell gwybodaeth a chategoriâu o wybodaeth yn cael eu prosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os yw data personol wedi'i gael gan ffynhonnell ond chi eich hun (gwrthrych y data).

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Os ydych wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 cadarnhaol, rydym yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt.

Eich teitl swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith.

Enwau, dyddiad geni a manylion cyswllt y rheiny yn eich cartref ynghyd ag a oeddent yn bresennol yn ystod eich cyfnod heintus.

Enwau a manylion cyswllt pobl eraill yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â hwy yn ystod eich cyfnod heintus, a'r lleoedd yr ydych wedi ymweld â nhw yn ystod eich cyfnod heintus.

Manylion unrhyw symptomau COVID19 a allai fod gennych ac os ydych wedi cael eich rhoi yn yr ysbyty gyda'r symptomau hynny.

Os ydych wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 cadarnhaol, rydym yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

Eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt.

Eich teitl swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith.

Enwau, dyddiad geni a manylion cyswllt y rheiny yn eich cartref.

Manylion unrhyw symptomau COVID19 a allai fod gennych ac os ydych wedi cael eich rhoi yn yr ysbyty gyda'r symptomau hynny.

Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:

Mae rhywfaint o'r wybodaeth bersonol a dderbyniwn yn cael ei roi'n uniongyrchol i ni gennych chi neu'ch cynrychiolydd. Rydym hefyd yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol, o'r ffynonellau canlynol yn yr amgylchiadau canlynol:

Os ydych wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 cadarnhaol; byddai eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi'u rhoi i ni gan y ganolfan brofi.

Os ydych wedi cael eich nodi fel un sydd wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 cadarnhaol; byddai eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi'u rhoi i ni gan yr unigolyn hwnnw neu ei gynrychiolydd.

Diben a sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Yma, byddwn yn egluro ein rheswm dros gasglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth:

Mae angen prosesu ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth ymgymryd ag awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr. Cefnogir hyn gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Cleifion) 2002.

Mwy o fanylion am ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth a diben prosesu:

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y caiff eich gwybodaeth bersonol sydd wedi'i chasglu'n rhan o wasanaeth Orlhain Cysylltiadau rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru ei phrosesu a'i defnyddio i helpu i reoli a lleihau lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19).

Os ydych wedi derbyn prawf COVID-19 cadarnhaol:

Bydd Swyddog Orlhain Cysylltiadau yn cysylltu â chi i roi cyngor a chymorth, bydd yn holi am eich symptomau ac yn ceisio sefydlu gyda phwy yr ydych wedi bod mewn cysylltiad. Byddwn yn defnyddio'r rhif ffôn rydych chi'n ei ddarparu wrth archebu prawf i gysylltu â chi. Bydd cyswllt trwy alwad ffôn, testun SMS neu e-ffurflen. Offeryn ar-lein yw'r e-ffurflen a fydd yn caniatáu ichi adael i ni wybod yn gyflym ac yn hawdd gyda phwy rydych chi wedi bod mewn cysylltiad. Os byddwch chi'n ei gwblhau o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen i ni eich ffonio.

Os ydych wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi cael prawf COVID-19 cadarnhaol:

Os ydych wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf cadarnhaol, bydd cynghorydd yn cysylltu â chi ac os byddwch yn cytuno i ateb y cwestiynau bydd yn rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud nesaf, er enghraifft am ba hyd y mae angen i chi ynysu.

Byddwch hefyd yn derbyn galwadau lles dyddiol i weld sut rydych chi'n dod ymlaen, os ydych chi wedi datblygu symptomau, a chewch eich cynghori i archebu prawf a sut i wneud hyn. Gallwch ddewis derbyn ac ymateb i'r wybodaeth hon drwy neges destun os yw'n well gennych.

Os nad ydych yn ymgysylltu â'r tîm ac nad ydych am ateb unrhyw gwestiynau, mae'n rhaid i ni anfon llythyr atoch yn esbonio pa gamau y mae angen i chi eu cymryd.

I gael rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau, dilynwch y ddolen hon;

<https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau>

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hyn, cysylltwch â'r person a enwir ar ben yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

(Dim ond yn berthnasol i brosesu ar sail caniatâd)

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth i ni, os oes naill ai:

- Ymrwymiad contract i wneud felly, neu
- Ymrwymiad statudol i wneud felly.

(Dim ond yn berthnasol os mai cyflawni contract neu ddyletswydd/tasg Cyhoeddus yw'r sail gyfreithiol dros brosesu).

Mae canlyniadau peidio â rhoi gwybodaeth fel a ganlyn:

Ddim yn berthnasol

Data Categori Arbennig

(Dim ond yn berthnasol os mai data categori arbennig sy'n cael ei brosesu)

Weithiau rydym yn prosesu categori arbennig a ddiogelir yn fwy dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm am hyn yw y ystyrir bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori yna mae angen i ni sefydlu sail gyfreithiol bellach dros brosesu, ac rydym wedi tynnu sylw at hyn isod:

Erthygl 9(i) mae iechyd y cyhoedd yn berthnasol i fudd y cyhoedd (e.e. gofal iechyd, safonau, triniaethau meddygol) Gall erthyglau perthnasol eraill gynnwys:

Erthygl 9(g) – mae angen prosesu am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd

Erthygl 9(h) mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, asesu gallu gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu triniaeth iechyd neu ofal cymdeithasol, neu reoli systemau neu wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Penderfynu awtomataidd/proffilio

(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar wrthrych data)

Weithiau rydym yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau ar y gwasanaeth rydym yn eu cynnig i chi. Isod ceir manylion am y systemau penderfynu neu broffilio rydym wedi'u defnyddio, a sut daethpwyd i'r penderfyniad:

Nid ydym yn defnyddio penderfyniadau na phroffilio awtomataidd o fewn y gwasanaeth.

Pwy fydd yn gweld eich gwybodaeth bersonol?

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn rheolwr data ar y cyd a'r Swyddog Diogelu Data yw'r:

Rheolwr Gwasanaethau Digidol

E-bost: information.management@newport.gov.uk

Ffôn: 01633 656656

Darperir y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau gan y sefydliadau canlynol:

- Pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - NWIS)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Mae'r holl sefydliadau'n cydweithio fel 'Rheolwyr Data ar y Cyd', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am y data y maent yn ei brosesu.

Mae'r broses olrhain cysylltiadau yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gwneud gan 'Brosesydd Data, Delta Wellbeing Ltd.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:

Tîm olrhain cyswllt Casnewydd

Gallen ni rannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Dinas Casnewydd:

Ni chaiff BWVA ei rannu gydag unrhyw adran arall o Gyngor Dinas Casnewydd.

Gallen ni rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol eraill:

Efallai y byddwn yn rhannu eich data gydag unrhyw un o'r rheolwyr data ar y cyd. Dim ond os yw'n briodol gwneud hynny y byddwn yn rhannu eich data ac os oes diben a sail glir fel y nodir yn Neddf GDPR a Diogelu Data 2018.

Weithiau rydym yn defnyddio help arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan. 'Proseswyr data' yw'r cwmnïau hyn. Wrth brosesu eich data, rydym yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) wedi defnyddio system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid Cymru gyfan i gefnogi olrhain cyswllt a rheoli achosion achosion covid-19 yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn drwy ateb microsoft Dynamics 365 cwmwl (canolfannau data'r DU) gydag integreiddio priodol i systemau perthnasol yng Nghymru, ac fe'i defnyddir gan dimau olrhain cyswllt lleol ledled Cymru.

Manylion unrhyw brosesau o drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol yn rhyngwladol:

(os yn berthnasol)

Ddim yn berthnasol

Ceisiadau am wybodaeth

Gallai'r holl wybodaeth a gofnodwyd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ei chadw fod yn destun ceisiadau yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech chi wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, gallwch wneud cais cael copi o'n **Ffurflen Gais Gwybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech chi gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

<http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Transparency/Freedom-of-information.aspx>

Eich hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Nodwch nad yw pob un o'r hawliau hyn yn ddiamod a bydd angen i ni ystyried eich cais wedi'i dderbyn. Mae gennych yr hawl i wneud cais:

- a) i'ch data gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
- b) i'ch data gael ei ddileu;
- c) i gyfyngu ar eich data'n cael ei brosesu;
- d) i arfer eich hawl i drosglwyddo data;
- e) i wrthwynebu i brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a phenderfynu awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

information.management@newport.gov.uk

Gweithdrefn Gwyno

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i ni. Os hoffech chi gwyno, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost aton ni yn;

Information.management@newport.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni alla y Comisiynydd wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi dihybyddu gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Sir Gaeelleon
SK9 5AF.

Am faint y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Bydd y data a gasglwn ar gyfer pobl a gafodd brawf Covid-19 positif yn cael ei gadw am 7 mlynedd. Bydd y data a gesglir ar gysylltiadau pobl â COVID-19 ond nad oes ganddynt unrhyw symptomau yn cael ei gadw am y cyfnod cadw gofynnol o 5 mlynedd.